Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Ionawr 2006 January

Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

BLWYDDYN NEWYDD DDA / HAPPY NEW YEAR

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn newydd. Mae'n argoeli i fod yn flwyddyn brysur a chyffrous i'r ysgol. Cofiwch fod gan yr ysgol bolisi 'drws agored' ac mae 'na groeso i chi i gysylltu â ni i drafod materion o bwys.

Here we are at the beginning of another new year. We have a busy and exciting year ahead—please remember that the school operates an 'open door' policy i.e. please feel free to contact us to discuss issues that affect your child's education.

Clwyd / Gate

Am resymau diogelwch, mi fydd y glwyd sydd ar ochr yr ysgol, clwyd buarth y Babanod, yn cael ei chloi am 9-30am bob bore. Mi fydd y glwyd yma yn cael ei hagor am 3-30pm i rieni plant y Derbyn yn unig. Mi fydd angen i bob rhiant/ymwelwyr sydd yn dod i'r ysgol yn ystod y dydd, lofnodi eu henwau yn llyfr yr ymwelwyr sydd yn swyddfa'r ysgol.

For safety reasons, the gate at the side of the school will be locked at 9-30am. This gate will then be unlocked at 3-30pm for Reception parents only. All parents/visitors who visit the school during the day must sign the visitors book in the school office.

Eiddo Coll / Unclaimed items

Yn anffodus, mae gennym lawer iawn o eiddo coll yn yr ysgol. Dylid sicrhau fod enwau'r plant ar bob eitem!

Unfortunately, we have a large number of unclaimed items in the school at present - clothing, bags, etc. Please ensure that your child name is on all items that are brought to school.

Gwirfoddolwyr / Volunteers

Mae gan yr ysgol grwp o wirfoddolwyr o blith y rhieni sydd yn cynorthwyo yn yr ysgol yn rheolaidd. Os hoffech ymuno â'r grwp yma sydd yn ein cynorthwyo'n ardderchog, yna cysylltwch â ni.

Melin Gruffydd is well supported by a group of hard working volunteers. If you would like to help in us in any way, then please contact the school.
(Help required with reading, art and craft, displays, resources, PE/GAMES, I.T.).